**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**27 CHWEFROR 2020**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau, 27 Chwefror 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Mike Allport, Glyn Banks, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Dave Mackie, Hilary McGuill, Ted Palmer, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Kevin Rush, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Paul Cunningham, Ian Dunbar, David Evans, George Hardcastle, Joe Johnson, Paul Johnson, Colin Legg, Mike Lowe, Billy Mullin, Mike Peers, Tim Roberts, Tony Sharps, Owen Thomas a Martin White

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

Ar gyfer cofnod rhif 123
Rheolwr Tîm Digartrefedd a Chyngor, Arweinydd Tîm (Datrysiadau Tai) a Swyddog Contractau ac Adolygu Cefnogi Pobl

## 117. COFNODION

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir (y Cynghr. Bithell a Thomas yn cynnig ac eilio).

O ran cofnod rhif 93, bydd yr ymateb i gwestiwn y Cyng. Richard Jones ynglŷn â thynnu dosbarthiadau symudol ac i ymholiad y Cyng. Carver ynglŷn â'r hen safleoedd tirlenwi ym Mwcle yn cael eu cylchredeg i bob Aelod.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a gofyn i'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 118. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

**119. DEISEBAU**

Dim.

**120. ADOLYGU PWYLLGORAU**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar adolygu strwythur pwyllgorau gan gynnwys lleihau nifer y pwyllgorau trosolwg a chraffu a'u haelodaeth, lleihau aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio a chael datrysiad cydbwysedd gwleidyddol newydd. Diolchodd y Prif Swyddog i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd am ei waith ar hyn a manylodd ar y broses ymgynghori a arweiniodd at argymhellion y Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer newid (bydd y newidiadau yn dod i rym ar ôl y Cyfarfod Blynyddol).

Wedi diolch i'r swyddogion a'r Arweinydd, gofynnodd y Cyng. Heesom am gadarnhad ynghylch a fyddai Aelodau sy'n mynd i gyfarfodydd pwyllgorau fel arsyllwyr yn cael yr hawl i siarad (ond ddim pleidleisio). Dywedodd y Prif Weithredwr bod Cadeiryddion wastad wedi'u hannog i ganiatáu i Aelodau sy'n mynd i gyfarfodydd fel arsyllwyr siarad ond y byddai Cadeiryddion rŵan yn cael eu gwahodd yn ffurfiol i anrhydeddu'r arfer hwn. Bydd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'i dîm yn cynorthwyo i sicrhau bod pwyllgorau yn cadw at yr arfer hwn pan fo'n bosibl.

Fel Cadeirydd Pwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd, diolchodd y Cyng. Palmer i'r swyddogion am eu gwaith a chynnig bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo.

Wrth eilio'r cynnig, ymatebodd y Cyng. Roberts i gwestiwn gan y Cyng. Heesom a chadarnhaodd yr ymrwymiad a roddwyd i Arweinwyr Grwpiau y bydd nifer yr Aelodau Cabinet ar y Pwyllgor Cynllunio yn lleihau i dri yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol. Aeth yn ei flaen i ddiolch i'r Arweinwyr Grwpiau am eu cyfraniad i'r broses ymgynghori.

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud â grwpiau gwleidyddol llai, eglurodd y Prif Swyddog y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol arfaethedig sy'n ceisio dyrannu seddau pwyllgor yn decach ar draws y pleidiau. Yn dilyn sylwadau'r Cyng. Mackie, dywedodd y Prif Swyddog y byddai unrhyw ffafriaeth o ran dyrannu seddau grwpiau lleiafrifol yn cael eu hystyried a'u bodloni pan fo'n bosibl. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai trafodaeth ynglŷn â'r mater hwn yn cael ei drefnu gydag Arweinwyr Grwpiau pan fyddant yn cwrdd ddiwedd mis Mawrth.

Gan fod yr argymhellion wedi'u cynnig a'u heilio, cafwyd pleidlais a chymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r canlynol a'u rhoi ar waith yn dilyn Cyfarfod Blynyddol 2020:

- Lleihau nifer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o chwech i bump
- Gweithredu'r strwythur Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu newydd, fel y nodir yn yr adroddiad

(b) Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, lleihau nifer yr Aelodau ar y pwyllgorau canlynol:
- Lleihau aelodaeth y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o 15 i 12 aelod
- Lleihau aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio o 21 i 17 aelod
- Lleihau aelodaeth y Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd o 21 i 16 aelod

(c) Nodi'r cyfrifiad cydbwysedd gwleidyddol diwygiedig (Atodiad B).

(d) Diolch yn ffurfiol i'r holl Aelodau a swyddogion sydd wedi ymwneud â gwaith llwyddiannus y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadau.

**121. <u>ADOLYGU ARDALOEDD PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO</u>**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad o'r ardaloedd pleidleisio a mannau pleidleisio (mae angen cynnal adolygiad bob pum mlynedd yn unol â'r gofynion statudol).

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o'r cynigion terfynol, fel y nodir yn yr adroddiad, sy'n ystyried materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghr. Thomas a Bithell. Yn dilyn pleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Nodi canlyniad yr adolygiad a'r ymgynghoriad;

(b) Cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer ardaloedd pleidleisio a mannau pleidleisio, fel y nodir yn Atodiad 2.

**122. <u>DEISEBAU SYDD WEDI DOD I LAW'R CYNGOR</u>**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad blynyddol ar ganlyniadau a chamau gweithredu'r deisebau a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr ymateb portffolio i'r unig ddeiseb a dderbyniwyd yn 2019/20 - un a oedd yn herio'r terfyn cyflymder ar Abbey Drive, Gronant.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod trefnydd y ddeiseb yn fodlon ar ymateb y Cyngor ac yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya yn ddiofyn ar gyfer ardaloedd preswyl ar hyd a lled Cymru.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â gorfodi terfyn cyflymder o 20mya, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd yn derbyn rhagor o eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r ddeddfwriaeth cael ei phasio.

Fel Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad, dywedodd y Cyng. Thomas fod rhai cyfyngiadau cyflymder o 20mya yn gynghorol yn unig ac y bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â therfynau cyflymder statudol yn cael eu

cyhoeddi gyda'r ddeddfwriaeth. Dywedodd fod y swyddog Cyngor a benodwyd i weithgor Llywodraeth Cymru wedi llunio adroddiad pwyllgor.

Yn dilyn pleidlais, cymeradwywyd yr argymhelliad yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

**123. RHYBUDD O GYNNIG**

Ystyriodd yr Aelodau Rhybudd o Gynnig dan y telerau canlynol, wedi'u cynnig a'u heilio gan y Cynghr. Attridge a Brown.

Protocol Argyfwng Tywydd Garw - y Cynghr. Bernie Attridge, Helen Brown, Carol Ellis a George Hardcastle

*"Rydym ni'n galw ar Sir y Fflint i adolygu'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar unwaith.*

*Yn dilyn tywydd garw, gan gynnwys storm rybudd uwch, ni lwyddodd Sir y Fflint i ysgogi'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw fel awdurdodau cyfagos oherwydd nad oedd hi'n ddigon oer yn ôl y protocol.*

*Gofynnwn fod swyddogion Sir y Fflint yn defnyddio'u disgresiwn pan fo tywydd garw, a pheidio ag aros i'r tymheredd ostwng o dan y rhewbwynt. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr holl linellau cyfathrebu ar agor a sicrhau ein bod ni'n estyn allan cymaint â phosibl.*

*Mae'n rhaid i ni fod yn ofalgar a thosturiol tuag at y rheiny yn ein sir sy'n llai ffodus na ni."*

Gan siarad o blaid y cynnig, amlygodd y Cyng. Attridge bwysigrwydd mynd i'r afael â digartrefedd drwy ddull amlasiantaeth. Er ei fod yn cydnabod bod y protocol wedi'i ysgogi ar sawl achlysur, roedd yn pryderu nad oedd y meini prawf yn ystyried oerfel gwynt yn ystod y tywydd garw diweddar. Roedd yn cydnabod yr heriau ar ôl i'r darparwr gwasanaeth roi'r gorau i gynnig y lloches nos yn Nhreffynnon ac yn croesawu ymateb y Cyngor i ddiogelu'r cyfleuster newydd yng Nglannau Dyfrdwy. Galwodd am adolygiad brys o'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw i sicrhau na fydd y sefyllfa yma'n digwydd eto, ac am ddisgresiwn i ysgogi'r protocol pan nad yw'r tymheredd yn gostwng o dan y lefel a nodwyd. Aeth yn ei flaen i ddiolch i'r Aelod Cabinet Tai, Prif Swyddog (Tai), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) a'r Rheolwr Tîm Digartrefedd a Chyngor a'i thîm.

Fel Aelod Cabinet Tai, amlygodd y Cyng. Dave Hughes flaenoriaeth y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd a gwahodd y swyddogion i rannu trosolwg o'u gwaith yn cefnogi pobl ddigartref ac yn sefydlu'r lloches nos newydd.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Rhybudd o Gynnig yn gyfle i rannau'r camau gweithredu ar gyfer sefydlu'r gwasanaeth newydd yng Nglannau Dyfrdwy, fel y nodir yn y nodyn briffio a gylchredwyd. Er bod risg ynghlwm wrth sefydliad partner yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth, mae'r gwasanaeth newydd mewn

adeilad Cyngor yn rhoi mwy o gadernid i ni. Mewn ymateb i bryderon, siaradodd y Prif Weithredwr am geisio paratoi’r lleoliad newydd dan amgylchiadau anodd a rhoi’r trefniadau diogelwch angenrheidiol ar waith er mwyn defnyddio’r cyfleuster fel canolfan argyfwng petai’r Protocol Argyfwng Tywydd Garw yn cael ei ysgogi.

Cyflwynwyd y Rheolwr Tîm Digartrefedd a Chyngor (Jenni Griffiths), Arweinydd Tîm Datrysiadau Tai (Deborah Kenyon) a’r Swyddog Contractau ac Adolygu Cefnogi Pobl (Lisa Pearson) a roddodd gyflwyniad manwl ar eu gwaith ac effaith colli’r lloches nos. Oherwydd y gwaith i baratoi’r cyfleuster newydd a chaffael darparwr gwasanaeth newydd - a’r tywydd yn gwaethygu - roedd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a’r tîm wedi rhannu ymrwymiad i agor y cyfleuster cyn gynted â phosibl yn y ffordd fwyaf priodol. Mae yna lawer o weithgareddau yn rhan o’r gwaith i weithredu’r Protocol Argyfwng Tywydd Gawr a oedd i fod yn fesur dros dro yn ystod y cyfnod, gan ddefnyddio disgresiwn yn absenoldeb diffiniad statudol o dywydd oer. Yn ystod y ddau benwythnos dilynol o dywydd garw, bu i’r tîm adnabod y rheiny a oedd angen cymorth a darparu llety amgen iddynt hyd nes bod y cyfleuster yn barod i gael ei defnyddio fel canolfan argyfwng.

Ers agor y cyfleuster mae llawer o swyddogion wedi treulio oriau yn gweithio yn y lloches nos yn ymgymryd â dyletswyddau, ymgysylltu â’r cleientiaid ac yn gweithio’n agos gyda’r darparwr gwasanaeth newydd (Wallich) ar y trefniadau pontio i sicrhau trosglwyddiad ffurfiol llyfn ar 2 Mawrth. Ariannwyd y cyfleuster drwy’r Grant Cymorth Tai, gyda chyfraniad gan y Bwrdd Iechyd tuag at gostau ailwampio’r adeilad.

Cipiodd y Rheolwr Tîm y cyfle hwn i ddiolch i bawb a oedd yn rhan o’r prosiect yn ystod y cyfnod heriol hwn, gan gynnwys cydweithwyr Gwaith Cyfalaf, contractwyr a Heddlu Gogledd Cymru. Canmolwyd y defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal am eu hamynedd yn ystod y gwaith adeiladu.

Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai agor lloches nos newydd olygu na fydd angen y protocol fel mesur diogelu. Os felly, bydd lefel y disgresiwn wrth ei weithredu yn ystyriaeth allweddol wrth redeg y cyfleuster presennol. Fel yr eglurir yn y nodyn briffio, mae angen gadael ychydig o amser ar ôl y trosglwyddiad ffurfiol i’r ganolfan setlo cyn dechrau ffurfioli trefniadau gwirfoddoli a rhoddion. Byddwn yn trefnu ymweliad safle ar gyfer Aelodau Etholedig ar adeg briodol, a byddwn yn edrych ar wasanaethau “gofal estynedig” i’w cynnig yn y ganolfan newydd.

Diolchodd y Cyng. Brown i’r timau o wirfoddolwyr sydd wedi bod yn cefnogi pobl ddigartref yn ystod y blynyddoedd diweddar ac awgrymodd y dylid eu gwahodd i ymweld â’r ganolfan newydd. Diolchodd hefyd i’r aelodau o’r cyhoedd a helpodd yn ystod y tywydd garw diweddar. Nid mater i’r Adran Dai yn unig yw digartrefedd meddai, a chroesawodd y dewis i gynnig gwasanaethau estynedig yn y ganolfan newydd.

Wrth ddisgrifio digartrefedd fel problem genedlaethol, dywedodd y Cyng. Roberts fod amgylchiadau’r achos hwn yn heriol iawn. Gan groesawu agoriad y ganolfan newydd, diolchodd i’r Rheolwr a’i thîm, ac i’r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yn benodol am ei ymroddiad i dreulio cryn dipyn o amser yn y lloches yn

ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth. Gofynnodd am nodi gair o ddiolch i swyddogion yr Adran Dai am eu hymdrechion.

Croesawodd y Cyng. Thomas y trefniadau pontio ar gyfer trosglwyddo a rhoddodd sicrwydd y bydd yr Adran Dai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio i fynd i'r afael â digartrefedd. Mewn ymateb i sylwadau, darparodd y Rheolwr Tîm fanylion gwaith y Cyngor gyda gwasanaeth cydweithredol newydd i gydlynu gweithwyr estyn allan arbenigol i feysydd megis iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Yn ystod y drafodaeth canmolodd sawl Aelod y Prif Swyddog a'r tîm am eu hymrwymiad i fynd i'r afael â digartrefedd yn Sir y Fflint ac am eu gwaith gyda'r ganolfan newydd. Mewn ymateb i gwestiynau, darparodd y swyddogion eglurhad ynghylch y dull a ddefnyddir i asesu unigolion sy'n defnyddio'r lloches nos.

Gan gefnogi cydweithio rhwng yr Adran Dai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, dywedodd y Cyng. Rosetta Dolphin fod modd archwilio'r mater ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Cyd ym mis Mehefin.

Roedd y Cyng. Bibby yn siomedig o weld cynnydd yn nifer y bobl ddigartref, a sawl ffactor yn gyfrifol am hynny. Yn ogystal â swyddogion yr Adran Dai, diolchodd i swyddogion y Gwasanaethau Stryd, Heddlu Gogledd Cymru, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a gwirfoddolwyr.

Ar ddiwedd y drafodaeth diolchodd y Cyng. Attridge i'r Aelodau am eu sylwadau ac i'r swyddogion am ddarparu sicrwydd na fydd angen ysgogi'r Protocol Argyfwng Tywydd Garw ar ôl agor y cyfleuster newydd. Ar sail hynny, tynnodd ei Rybudd o Gynnig yn ôl. Cipiodd y cyfle i gydnabod ymdrechion pawb a oedd yn rhan o'r gwaith hwn, gan gynnwys y Prif Swyddog a'r timau ar draws y Cyngor, a chanmolodd waith elusennau megis Community Hands a Help The Homeless.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am gyflwyno Rhybudd o Gynnig ac i'r tîm am eu cyflwyniad.

Gofynnodd y Prif Weithredwr am gefnogaeth yr Aelodau i roi amser i'r gwasanaeth newydd ymsefydlu. Bydd gwybodaeth am wirfoddoli a rhoddion ar gael i'r Aelodau ymhen pythefnos, a bydd cyfarfod y pwyllgor ar y cyd ym mis Mehefin yn cynnwys trafodaeth ar wasanaethau gofal estynedig hirdymor.

**PENDERFYNWYD:**

Tynnu'r Rhybudd o Gynnig ar y Protocol Argyfwng Tywydd Garw yn ôl a nodi'r camau gweithredu.

## 124. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Dim.

**125. CWESTIYNAU**

Dim.

**126. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm daeth i ben am 3.30pm)

...................................................

**Y Cadeirydd**